**COMISIYNYDD PLANT CYMRU**

# Disgrifiad Swydd – Pennaeth Estyn Allan ac Ymgysylltu

| **1. Manylion y Swydd** |
|---|
| **Teitl y Swydd:** Pennaeth Estyn Allan ac Ymgysylltu. Amser llawn (opsiynau hyblyg ar gael).<br>**Gradd Bresennol: SEO (£47,676 - £56,445 pro rata** – yn disgwyl dyfarniad cyflog 2026/7) |
| **Prif Leoliadau:** Swyddfa'r Comisiynydd Plant yn Abertawe a'r swyddfa loeren yng Nghaerdydd. |
| **Yn adrodd i'r:** Prif Swyddog Gweithredol |
| **Cyfrifoldebau rheoli neu oruchwylio:** Bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar 3 Swyddog Cyfranogiad ac 1 Swyddog Cefnogi Ymgysylltiad |

**2. Prif bwrpas, amcan a chyd-destun y rôl (crynodeb)**

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn chwilio am Bennaeth Estyn Allan ac Ymgysylltu i helpu i sbarduno cyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd yn ei strategaeth tair blynedd newydd: *Gwireddu Hawliau Plant*.

Yn arbennig, yr ymrwymiadau i wneud y canlynol:

- estyn allan ymhellach at holl blant Cymru – fel bod pob plentyn yn gwybod bod pencampwr cryf, annibynnol ar gael i sefyll dros eu hawliau;

- defnyddio lleisiau a phrofiadau plant i sbarduno gwelliant mewn ymarfer lleol a rhanbarthol – fel bod yr hyn mae plant yn ei ddweud wrthyn ni yn arwain yn uniongyrchol at welliannau i ymarfer.

Rydyn ni'n chwilio am arweinydd brwd a phrofiadol sy'n barod i dorchi llewys a theithio'r filltir ychwanegol i sicrhau ein bod ni'n cyflawni strategaeth y Comisiynydd ac yn cyfrannu at Gymru lle mae plant yn hapus, yn iach ac yn ddiogel.

Bydd y rôl yn galw am ddatblygu a gweithredu strategaethau i wneud y canlynol:

- sicrhau ein bod yn fwy gweladwy a chynyddu ymwybyddiaeth o'n gwahanol swyddogaethau, gan gynnwys llwybrau ar gyfer cyngor a chymorth, trwy estyn allan;

- cynyddu ein hymgysylltiad â phlant a phobl ifanc o gefndiroedd amrywiol ledled Cymru, gan dargedu cymunedau lle na fu ymgysylltu digonol, megis plant sydd â phrofiad o ofal, plant anabl, a phlant o gymunedau ethnig lleiafrifol, a dileu rhwystrau mynediad;

- sicrhau bod ein gwaith cyfranogiad yn ddiogel, yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn ystyrlon – gan greu effaith y gall plant a phobl ifanc ei gweld drostynt eu hunain.

Sut bydd llwyddiant yn edrych:

- Bydd plant o bob cefndir yn dweud eu bod yn gwybod pwy yw'r Comisiynydd, yn gwybod beth yw diben ei swyddfa, ac yn teimlo'n hyderus i ymgysylltu â ni;
- Bydd cyfranogiad plant a phobl ifanc wedi'i wreiddio ar draws ein holl waith, ac yn llywio ein safbwynt polisi'n effeithiol;
- Bydd barn plant yn cael ei hadlewyrchu'n weladwy mewn polisi ehangach, ymarfer a thrafodaethau cyhoeddus.

Bydd y rôl yn goruchwylio swyddogaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu y sefydliad, gan sicrhau perfformiad lefel uchel gan unigolion a'r tîm wrth gyflwyno ystod o gyfleoedd effeithiol a hygyrch i blant a phobl ifanc ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ar-lein, a hefyd i randdeiliaid eraill megis rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Bydd y Pennaeth Estyn Allan ac Ymgysylltu yn gweithio fel rhan o'r Uwch Dîm Rheoli.

## 3. Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

- Bod yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu strategaethau i gyflawni agweddau perthnasol ar strategaeth 3-blynedd y Comisiynydd, yn enwedig mewn perthynas ag estyn allan, ymgysylltu a chyfranogiad.

- Cynllunio dull strategol systematig o ymdrin â gwaith staff y Comisiynydd er mwyn cyflawni ein hamcanion, er enghraifft trwy ddadansoddi data i ganfod bylchau a threfnu ymweliadau ag ardaloedd/â grwpiau lle na fu ymgysylltu digonol.

- Datblygu a gweithredu cynllun estyn allan a chynllun tracio cynnydd er mwyn ymgysylltu ag ardaloedd/â grwpiau lle na fu ymgysylltu digonol.

- Goruchwylio staff er mwyn sicrhau bod prif flaenoriaethau a negeseuon y Comisiynydd yn cael eu cyfleu'n effeithiol trwy ymweliadau ymgysylltu.

- Bod yn wyneb gweladwy i'r sefydliad, gan feithrin cysylltiadau a pherthnasoedd newydd â rhanddeiliaid allanol ar ran y Comisiynydd am gyfran sylweddol o'ch amser (e.e. 40%).

- Bod yn gyfrifol am arwain y tîm Cyfranogiad i sicrhau cyfranogiad effeithiol plant a phobl ifanc yng ngwaith y sefydliad, a bod rhaglen effeithiol ar gyfer ymwybyddiaeth o hawliau plant, fydd yn cynnwys sesiynau hyfforddi, cyflwyniadau neu weithdai i oedolion, megis pobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu ar eu rhan.

- Bod yn Rheolwr Llinell ar Swyddogion Cyfranogiad a Swyddog Cefnogi Ymgysylltiad, a sicrhau trefniadau sicrhau ansawdd fel bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gallu eu cyflawni at safon uchel.

- Cynnal y trefniadau sicrwydd o fewn y tîm staff, a'u gwella'n barhaus, fel bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gallu eu cyflawni.

- Rhoi arweiniad, a chyfrannu at weledigaeth strategol hirdymor, cynllunio a rheoli risg oddi mewn i CPC, trwy fod yn aelod o'r Tîm Rheoli.

- Noddi grwpiau prosiect traws-swyddogaeth lle bo hynny'n briodol, gan sicrhau bod lleisiau a barn plant yn cael eu hymgorffori yn neilliannau'r prosiect.

- Rheoli, monitro ac adolygu cyllidebau'n rheolaidd yn eich meysydd cyfrifoldeb eich hun.

- Cefnogi diwylliant corfforaethol cynhwysol a chefnogol trwy ddarparu cymorth a chyflenwi'n achlysurol ar gyfer dyletswyddau cydweithwyr ar draws pob swyddogaeth yn ôl y galw.

- Arddangos a chynnal gwerthoedd corfforaethol Comisiynydd Plant Cymru, sef bod yn Deg, yn Ofalgar, yn Chwilfrydig, yn Onest, yn Barod i Gydweithio, ac Ymdrechu i greu Newid er mwyn gwella bywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill oddi mewn i gylch gorchwyl y radd fel y bydd y Comisiynydd yn barnu sy'n angenrheidiol.

| 4. Manyleb Person ar gyfer Pennaeth Estyn Allan ac Ymgysylltu | |
|---|---|
| **Cyflawniadau/cymwysterau** | |
| **Hanfodol**<br>▪ Cymhwyster ar lefel gradd<br>▪ Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol a dysgu diweddar a pharhaus | **Dymunol**<br>• Cymhwyster ôl-raddedig neu hyfforddiant mewn maes perthnasol |
| **Sgiliau** | |
| **Hanfodol**<br>• Sgiliau cyflwyno ardderchog<br>• Gallu i gyfathrebu'n effeithiol ag ystod o gynulleidfaoedd<br>• Sgiliau dadansoddi manwl gywir, gan ddefnyddio ystadegau a deallusrwydd i lywio penderfyniadau<br>• Gallu i ddehongli data ac offer arfer gorau i gyflawni newid<br>• Gallu i gasglu, dehongli a chyflwyno gwybodaeth i gynulleidfa ehangach oddi mewn i gyd-destun sy'n ffocws<br>• Llythrennog o ran TG<br>• Sgiliau rheoli prosiect da<br>• Sgiliau blaenoriaethu ardderchog<br>• Sgiliau ardderchog o ran rheoli pobl ac arwain<br>• Mae angen i ddeilydd y swydd fedru cyfathrebu yn Saesneg at safon uchel ac yn hyderus ar lafar ac yn ysgrifenedig | **Dymunol**<br>Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol. Mae ymrwymiad i Gymru, y Gymraeg a'i diwylliant yn ofynnol ar gyfer y rôl |
| **Gwybodaeth/Profiad** | |
| **Hanfodol**<br>• Profiad o arwain timau prosiect neu grwpiau a chyfrannu at arweinyddiaeth sefydliadol<br>• Profiad o reoli pobl a pherfformiad<br>• Profiad sylweddol o weithio ym maes estyn allan, ymgysylltu, cyfranogiad neu faes proffesiynol arall perthnasol<br>• Profiad o gynyddu gwelededd ac ymgysylltiad mewn cyd-destun proffesiynol<br>• Dealltwriaeth o arfer cyfranogol a sut mae ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn modd ystyrlon<br>• Cofnod o gyflawni amcanion yn llwyddiannus a chael hyd i atebion arloesol i broblemau<br>• Gwybodaeth am y cyd-destun polisi, gwasanaeth, llywodraethu a gwleidyddol yng Nghymru, a beth sy'n ofynnol i brif-ffrydio hawliau plant i arfer beunyddiol<br>• Profiad o weithio ar y cyd â sefydliadau eraill ar bob lefel er mwyn dylanwadu a chyflawni newid i blant a phobl ifanc | **Dymunol** |

| Nodweddion Personol | |
|---|---|
| **Hanfodol**<br>▪ Rhagweithiol, a llawn ysgogiad a hunan-gymhelliad<br>▪ Ymwybodol o weithrediadau a strategaethau<br>▪ Hynod drefnus, ac yn dilyn prosesau, ond gyda ffocws ar bwrpas a deilliannau<br>▪ Parodrwydd i gamu i'r adwy a gweithredu er mwyn cyflawni<br>▪ Ymgorffori dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol, fel eich bod yn ymatebol ac yn hyblyg o ran anghenion y gwasanaeth, y staff a'r rôl<br>▪ Ymroddiad i gynrychioli barn a hawliau plant a phobl ifanc ym mhopeth a wnawn<br>▪ Ymroddiad i gyflwyno gwasanaeth cyhoeddus a diwallu anghenion plant a phobl ifanc<br>▪ Arddangos gallu i feithrin perthnasoedd gwaith da ar bob lefel, ar draws ac o fewn sefydliadau<br>▪ Arddangos gallu i ymwneud â phobl o ystod eang o gefndiroedd<br>▪ Lefel uchel o integriti personol<br>▪ Arddangos gallu i feithrin rhwydweithiau a pherthnasoedd cefnogol<br>▪ Ymrwymiad amlwg i werthoedd sefydliadol CPC | **Dymunol** |
| **Gofynion arbennig y swydd** | |
| **Hanfodol**<br>▪ Gallu i deithio'n achlysurol ledled Cymru | **Dymunol** |